

Camau case study

Entry part 1

Astudiaeth achos Camau

Mynediad 1

Christine Troakes

Christine's Welsh language experience

Profiad iaith Gymraeg Chrstine

Christine is a registered childminder based in Bridgend. She has been working as a childminder for 33 years and provides full time and part time care for 12 children ranging from 11 months to 8 years of age. Christine works alongside her husband who is also a registered childminder. The language spoken at the setting is predominantly English, however, Christine has this year, had a focus on developing Welsh language and culture within her provision.

Between April to August 2023, Christine completed the Camau Mynediad 1 and Mynediad 2 Welsh language training courses and is currently accessing the next level, Mynediad 3 course. Alongside the [Camau training](#), Christine has been attending PACEY Cymru's monthly Welsh language support webinars and more recently achieved her Bronze [Welsh Promise Award](#), all of which support her long-term goal of becoming a bilingual provider. Christine was keen to improve her Welsh skills and to access the Camau training to help improve her confidence and use of the vocabulary within her everyday practice to support the children in her care. The opportunity to access Welsh language support and to be able to rehearse vocabulary and learn new phrases that is relevant to her work has been beneficial to Christine, as her local community is predominately English speaking, which means she has little access to Welsh speakers.

Mae Christine yn warchodwr plant cofrestredig ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hi wedi bod yn gweithio fel gwarchodwr plant ers 33 mlynedd ac yn darparu gofal llawn amser a rhan amser i 12 o blant rhwng 11 mis ac 8 oed. Mae Christine yn gweithio ochr yn ochr â'i gŵr sydd hefyd yn warchodwr plant cofrestredig. Saesneg yw iaith y lleoliad yn bennaf, fodd bynnag, eleni mae Christine wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru o fewn ei darpariaeth.

Rhwng Ebrill ac Awst 2023, cwblhaodd Christine gyrsiau hyfforddi Cymraeg Camau Mynediad 1 a Mynediad 2 ac mae ar hyn o bryd yn dilyn y cwrs lefel nesaf, Mynediad 3. Ochr yn ochr â [hyfforddiant Camau](#), mae Christine wedi bod yn mynychu gweminarau cymorth iaith Gymraeg misol PACEY Cymru ac yn fwy diweddar enillodd ei [Gwobr Addewid Cymraeg](#) Efydd, sydd oll yn cefnogi ei nod hirdymor o ddod yn ddarparwr dwyieithog. Roedd Christine yn awyddus i wella ei sgiliau Cymraeg ac i gael mynediad at hyfforddiant Camau i helpu i wella ei hyder a'i defnydd o'r eirfa o fewn ei hymarfer bob dydd i gefnogi'r plant yn ei gofal. Mae'r cyfle i gael cymorth iaith Gymraeg ac i allu ymarfer geirfa a dysgu ymadroddion newydd sy'n berthnasol i'w gwaith wedi bod o fudd i Christine, gan mai Saesneg yw ei chymuned leol yn bennaf, sy'n golygu nad oes ganddi fawr o fynediad at siaradwyr Cymraeg.

Training influencing practice

Hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer

Christine found the Camau training courses very accessible, easy to use and relevant in terms of content. As the course is self-study this meant that Christine could fit in study time when it worked for her and without the pressure of having to attend set classes. Whilst accessing the training Christine was able to use the wide range of resources provided as part of the training to support her progress and to offer further bilingual learning experiences for the children in her care.

As a result of having accessed the Camau training, Christine is using much more Welsh within her practice. Christine has grown in confidence and now refrains from using English words if she knows them in Welsh and has noticed children respond and reply in Welsh as they too have become familiar with the words and phrases. Christine believes that if “children hear the Welsh language, they are more likely to become familiar with it and to use it”, and adds that she has noticed that the children now use a range of Welsh words and phrases without being prompted or supported to do so.

“*I like that you can repeat and go back on the course, it's brilliant. I was able to work at my own pace and I loved it. I have printed off lots of resources to use.*

Rwy'n hoffi'r ffaith eich bod yn gallu ailadrodd a mynd yn ôl ar y cwrs, mae'n wych. Roeddwn i'n gallu gweithio ar fy nghyflynnder fy hun ac roeddwn i wrth fy modd. Rwyf wedi argraffu llawer o adnoddau i'w defnyddio..

”



Canfu Christine fod cyrsiau hyfforddi Camau yn hygyrch iawn, yn hawdd eu defnyddio ac yn berthnasol o ran cynnwys. Gan fod y cwrs yn un hunan-astudio, golygai hyn y gallai Christine astudio pan oedd yn gyfleus iddi a heb y pwysau o orfod mynychu dosbarthiadau ar amseroedd penodol. Wrth gael mynediad at yr hyfforddiant roedd Christine yn gallu defnyddio'r ystod eang o adnoddau a ddarparwyd fel rhan o'r hyfforddiant i gefnogi ei chynnydd ac i gynnig profiadau dysgu dwyieithog pellach i'r plant yn ei gofal.

O ganlyniad i gael mynediad at hyfforddiant Camau, mae Christine yn defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn ei hymarfer. Mae Christine wedi magu hyder ac mae bellach yn ymatal rhag defnyddio geiriau Saesneg os yw'n eu gwybod yn Gymraeg ac wedi sylwi bod plant yn ymateb ac yn ateb yn Gymraeg gan eu bod hwythau hefyd wedi dod yn gyfarwydd â'r geiriau a'r ymadroddion. Mae Christine yn credu “os yw plant yn clywed y Gymraeg, maen nhw'n fwy tebygol o ddod yn gyfarwydd â hi a'i defnyddio”, ac mae hi'n ychwanegu ei bod wedi sylwi bod y plant bellach yn defnyddio ystod o eiriau ac ymadroddion Cymraeg heb gael eu hannog na'u cefnogi i wneud hynny.

Welsh learner of the year

Dysgwr Cymraeg y flwyddyn

To recognise Christine's commitment to the development and implementation of the Welsh language within her setting, within the past year, Christine was awarded 'PACEY Cymru's Welsh Learner of the Year' at [PACEY Cymru's Celebration Event](#) this Autumn (2023).

Christine responded with joy in hearing that she'd been awarded the Welsh Learner of the Year Award and said:

"I am so pleased to have received the Award. I would like to take this opportunity to thank PACEY so much for giving me the resources to be able to achieve this. The support I have received from the team has been outstanding and I am really grateful to them for all their guidance and help."

PACEY Cymru as part of the Cwlwm consortia recognises the importance of developing the Welsh language and is proud of taking an active role in contributing to the Welsh Governments target of one million Welsh speakers by 2050. Many PACEY members in Wales like Christine have demonstrated their commitment to developing their own Welsh language skills and in supporting children to develop their skills.



I gydnabod ymrwymiad Christine i ddatblygiad a gweithrediad y Gymraeg o fewn ei lleoliad, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dyfarnwyd 'Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn PACEY Cymru' i Christine yn [Nigwyddiad Dathlu PACEY Cymru](#) yr Hydref hwn (2023).

Ymatebodd Christine â llawenydd wrth glywed ei bod wedi ennill Gwobr Dysgwr y Flwyddyn a dywedodd: *"Rwyf mor falch o fod wedi derbyn y Wobr. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr iawn i PACEY am roi'r adnoddau i mi allu cyflawni hyn. Mae'r gefnogaeth a gefais gan y tîm wedi bod yn rhagorol ac rwy'n ddiolchgar iawn iddynt am eu holl arweiniad a chymorth."*

Mae PACEY Cymru, fel rhan o gonsortia Cwlwm, yn cydnabod pwysigrwydd datblygu'r Gymraeg ac yn falch o gymryd rhan weithredol wrth gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae llawer o aelodau PACEY yng Nghymru, fel Christine, wedi dangos eu hymrwymiad i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg eu hunain ac wrth gefnogi plant i ddatblygu eu sgiliau.

Thinking about accessing the Camau training? Here's what Christine has to suggest

Meddwl am cyrchu hyfforddiant Camau? Dyma beth sydd gan Christine i'w awgrymu

“—
Don't be afraid, the advice out there is superb! PACEY Cymru staff are there every step of the way to support you with any Welsh Language needs. Don't give up unless you have tried it. I cannot believe how much support and encouragement I have had from PACEY. Nothing has been too much trouble. I wouldn't have been able to do it without them.

Peidiwch â bod ofn, mae'r cyngor sydd ar gael yn wych! Mae staff PACEY Cymru yno bob cam o'r ffordd i'ch cefnogi gydag unrhyw anghenion Iaith Gymraeg. Peidiwch â rhoi'r gorau iddi oni bai eich bod wedi rhoi cynnig arni. Ni allaf gredu faint o gefnogaeth ac anogaeth gefais gan PACEY. Does dim byd wedi bod yn ormod o drafferth. Ni fyddwn wedi gallu ei wneud hebddynt.

If you'd like further information or would like to register for the Camau courses, please get in touch with PACEY Cymru on 02920 351407 or paceycymru@pacey.org.uk

Os hoffech ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer y cyrsiau Camau, cysylltwch â PACEY Cymru ar 02920 351407 neu paceycymru@pacey.org.uk

